# Cwlwm Twyll
# Gweithgareddau Dilynol ar gyfer Athrawon

Mae'r gweithgareddau dilynol ar gyfer Cwlwm Twyll yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gyflawni canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol 3 o'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013. Nid yw'r gweithgareddau isod yn ddilynol ond yn hytrach yn ddewislen i athrawon.

| Gweithgareddau Ychwanegol Cwlwm Twyll | Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd | Cysylltiadau gyda'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 ac 19 yng Nghymru | |
|---|---|---|---|
| | | Sgiliau | Amrediad |
| Gweithgaredd Cychwynnol: Ailymweld a'r stori: Gwaith grŵp nofel graffig | ▪ Ll(Ll)s Siarad<br>▪ Ll(Ll)g Gwrando<br>▪ Ll(Ll)c&th Cydweithio a Thrafod<br>▪ Ll(D)y&d Ymateb a Dadansoddi | ▪ Gweithio'n annibynnol ac yn gydweithredol.<br>▪ Defnyddio ystod o dechnegau ar gyfer myfyrdod personol<br>▪ Mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol<br>▪ Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol | ▪ Deall nodweddion perthnasoedd diogel a‟r rhai a all arwain at gamdriniaeth |
| Archwilio Cyfeillgarwch a Phwysau Gan gyfoedion | ▪ Ll(Ll)s Siarad<br>▪ Ll(Ll)g Gwrando<br>▪ Ll(Ll)c&th Cydweithio a Thrafod | ▪ Defnyddio ystod o dechnegau ar gyfer myfyrdod personol.<br>▪ Mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt bersonol.<br>▪ Cymryd rhan mewn dadleuon a phleidleisio ar faterion<br>▪ Cydymdeimlo â phrofiadau, teimladau a gweithredoedd pobl eraill | ▪ Datblygu agweddau cadarnhaol atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill |
| Cannabis – Cyffur Trothwy | ▪ Ll(Ll)s Siarad<br>▪ Ll(Ll)g Gwrando<br>▪ Ll(Ll)c&th Cydweithio a Thrafod<br>▪ Ll(D)y&d Ymateb a | ▪ Defnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio cysylltiadau rhwng achos ac effaith.<br>▪ Ystyried safbwyntiau | ▪ Datblygu parch atynt hwy eu hunain ac at pobl eraill<br>▪ Dangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r corff a'r |


Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dadansoddi | pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol.<br>■ Cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol | meddwl yn ddiogel ac yn iach.<br>■ Yr effeithiau a'r peryglon sy'n codi wrth ddefnyddio amrywiaeth o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon a'r gyfraith sy' rheoli eu defnydd |
| Dal mewn Gwe | ■ Ll(Ll)s Siarad<br>■ Ll(Ll)g Gwrando<br>■ Ll(Ll)c&th Cydweithio a Thrafod<br>■ Ll(D)y&d Ymateb a Dadansoddi | ■ Cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol<br>■ Fod yn gadarn ac ymwrthod â phwysau diangen gan gyfoedion<br>■ Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol. | ■ Deall nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth.<br>■ Deall yr ystod o emosiynau y maent yn eu profi a sut i ddatblygu strategaethau ar gyfer ymdopi â theimladau negyddol<br>■ Canlyniadau personol, cymdeithasol a chyfreithiol ystod o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon |
| Cyflwyniad Cyfoedion | ■ Ll(Ll)s Siarad<br>■ Ll(Ll)g Gwrando<br>■ Ll(Ll)c&th Cydweithio a Thrafod<br>■ Ll(D)y&d Ymateb a Dadansoddi | ■ Cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol<br>■ Defnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio cysylltiadau rhwng achos ac effaith.<br>■ Gwrando'n astud mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol<br>■ Mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol | ■ Datblygu parch atynt hwy eu hunain ac at pobl eraill<br>■ Dangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r corff a'r meddwl yn ddiogel ac yn iach.<br>■ Canlyniadau personol, cymdeithasol a chyfreithiol ystod o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon |
| Hawliau Plant | ■ Ll(Ll)s Siarad<br>■ Ll(Ll)g Gwrando<br>■ Ll(Ll)c&th Cydweithio a Thrafod | ■ Mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol<br>■ Cael gafael ar ystod briodol o ffynonellau ar gyfer cymorth a chyngor. | ■ Dangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r corff a'r meddwl yn ddiogel ac yn iach. |


Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019

| Dull | Gweithgaredd | Adnoddau |
|---|---|---|
| **1. Gweithgaredd Cychwynnol: Ail ymweld a'r Stori** | | |
| Tasg Grŵp | **1 Gweithgaredd Grŵp Nofel Graffig**<br>Rhannwch y dosbarth i mewn i grwpiau o 3-4 dysgwr.<br>I atgoffa o'r dysgu blaenorol, llawr lwythwch y nofel graffig sy'n cyd-fynd â'r ffilm 'Fi Wyt Ti'. Gall y dysgwyr naill ail-ddarllen y stori yn unigol neu gymryd tro i ddarllen y sgript fel grŵp. Gofynnwch i bob grŵp drafod ac ateb y 12 cwestiwn am y stori. Dewiswch un person i ysgrifennu'r atebion. | Adnoddau 1(a) 1(b) ac 1(c) |
| Trafodaeth Dosbarth | Bydd yr athro yn gofyn am adborth oddi wrth bob grŵp gan roi naill ai 1 neu 2 farc ar gyfer pob ateb yn dibynnu ar y manylion. Bydd rhaid i ddysgwyr wedyn ychwanegu eu cyfanswm allan o 24 marc posib. Y rhif uchaf sy'n ennill.<br><br><u>CWESTIYNAU AC ATEBION Y CWIS</u><br>1. **Beth oedd y prif reswm fod Sophie yn 'wahanol'?**<br>A: Roedd yn cŵl, roedd ganddi gariad hynach, roedd yn gwthio'r ffiniau, nid oedd yn ei thrin fel plentyn bach.<br><br>2. **Y tro cyntaf iddi ysmygu canabis, tynnwyd llun ohoni ac yr oedd yn amharod i wneud hynny. Pam ydych yn meddwl fod Dean yn mynnu tynnu'r llun?**<br>A: Gallai tystiolaeth ohoni'n cymryd cyffuriau anghyfreithlon gael ei defnyddio fel blacmel yn hwyrach ymlaen.<br><br>3. **Pam y rhoddwyd y cyffuriau am ddim i ddechrau?**<br>A: I'w denu i gymryd y cyffuriau am y tro cyntaf – byddai'n fwy tebygol o drio cyffuriau pe byddent yn cael eu cynnig am ddim gan ffrind.<br><br>4. **Pam mor gyflym wnaeth y ddyled ar gyfer y cyffuriau ddwysau?**<br>A: Cyflym iawn. Byddai'r ddyled yn amhosibl i'w thalu o'r dechrau. Byddai popeth ar delerau'r gwerthwyr.<br><br>5. **Pam wnaeth hi ddwyn arian gan ei thad?**<br>A: Fe wnaeth wrthod pan wnaeth hi ofyn iddo, ac oherwydd ei bod angen yr arian yn fawr – fe wnaeth ei ddwyn beth bynnag.<br><br>6. **Pryd wnaeth pethau ddechrau newid?**<br>A: Pan wnaeth Sophie a Dean ddechrau ei thecstio o hyd ac fe wnaeth ddechrau ofni, colli'r ysgol ayyb. Pan wnaeth Sophie sefyll tu allan i'w thŷ a'i bygwth ei bod yn gorfod talu rhyw ffordd arall! | |


Llywodraeth Cymru Welsh Government
Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019

7. **Sut wnaeth Dean ddweud wrthi y byddai'n gorfod ei dalu i gyd yn ôl?**

   A: Byddai'n gorfod dosbarthu cyffuriau, bod yn gyfeillgar gyda'i ffrindiau. Byddai'n derbyn hen ffôn a 'phecynnau' cyffuriau i'w dosbarthu...

8. **Pam y rhoddwyd cyllell iddi?**

   A: I'w gwarchod neu o bosibl fel bygythiad...

9. **Ar ei waethaf, beth oedd y camfanteisio troseddol yn ei gynnwys?**

   A: Byddai'n cyfarfod pobl mewn gwahanol leoliadau, gwahanol drefi a phentrefi, ddydd a nos i ddosbarthu cyffuriau. Nid oedd byth yn gwybod lle'r oedd hi rhagor. Roedd yn ddryslyd ac yn mynd i fwy o ddyled. Roedd yn gwybod na fyddai byth yn gallu talu'r ddyled gan ei bod o hyd yn codi. Roedd Dean a'i gyfeillion yn rheoli bob agwedd o'i bywyd yn llwyr. Cafodd ei lladrata a bob tro roedd hyn yn digwydd, roedd pethau'n gwaethygu!

10. **Pwy ydych yn feddwl oedd yn gyfrifol am y lladradau?**

    A: Cysylltiadau Dean. Dyma sut maent yn cael plant a phobl ifanc i fod yn fwy dyledus iddynt.

11. **Pryd wnaeth pethau ddechrau newid er gwell?**

    A: Y diwrnod y cafodd ei hymosod yn y fan wen. Dyna'r diwrnod y cafodd gymorth. Pan ddechreuodd dweud wrth bobl y gwir ynghylch yr hyn oedd yn digwydd iddi go iawn.

12. **Beth mae'n ei olygu drwy ddweud 'Fi wyt ti...'?**

    A: Gallai fod yn un ohonom ni...yr eneth rydych wedi'i hadnabod ers yr ysgol gynradd, y bachgen sy'n dda mewn chwaraeon, clown y dosbarth, a'r un distaw yn y gornel, yr un nad ydych byth yn siarad â nhw a'ch ffrind gorau...


Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019

<table>
<tr><th colspan="3">Gweithgaredd 2: Ffrind Da</th></tr>
<tr><td>Ffrindiau Da?</td><td>Llawr lwythwch Adnodd 2 – Ffrind da.<br>Trafodwch y ffaith ein bod, yn y ffilm Cwlwm Twyll, wedi cwrdd â Sophie, a oedd yn gyfeillgar a'n merch yn y stori.<br>Ar y dechrau roedd hi'n ffrind da, ond a oedd hi o bosibl yn rhy dda i fod yn wir?<br>'Roedd hi'n wahanol, roedd ganddi gariad hŷn Dean, roedd ei ffrindiau'n arfer hongian gyda ni, sgwrsio â ni fel ein bod ni'n un ohonyn nhw… ddim fel plant bach…'<br><br>Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r dysgwyr:<br>1. Beth oedd yr arwyddion rhybudd nad oedd Sophie yn ffrind da mewn gwirionedd?<br><br><br>2. Yn eich barn chi, pa rinweddau sydd gan ffrind da?<br><br>Fel estyniad i'r weithgaredd hwn, gallai dysgwyr archwilio pwysigrwydd cyfeillgarwch cadarnhaol hyd yn oed ymhellach drwy gwblhau tudalennau 4-7 o'n Canllaw Goroesi yn yr Arddegau. Cliciwch ar y ddolen ganlynol:<br>https://schoolbeat.cymru/uploads/media/2808-20_Pecyn_Goroesi_yr_Arddegau.pdf</td><td>Adnodd 2</td></tr>
<tr><th colspan="3">Gweithgaredd 3: Canabis - Cyffur Trothwy i Gamfanteisio Troseddol ar Blant</th></tr>
<tr><td>Trafodaeth dosbarth<br><br><br><br><br><br><br><br>Group discussion and task</td><td>Gan ddefnyddio adnodd 3 trafodwch y ffaith bod ein prif gymeriad, yn y ffilm 'Cwlwm Twyll' , wedi cael cynnig Canabis gan ei ffrindiau newydd Sophie a Dean, a oedd fel petaent yn "…hefo peth bob amser".<br><br>Trafodwch y rhesymau posibl pam, ar y dechrau, ei bod yn ymddangos eu bod yn ei roi i ffwrdd am ddim?<br><br><br>Holwch y dysgwyr pam eu bod nhw'n meddwl bod 'nhw' yn mynnu tynnu llun o'r tro cyntaf iddi roi cynnig arni, er nad oedd am i'w llun gael ei dynnu? (y rheswm am hyn yw y gallant ei ddefnyddio fel tystiolaeth ei bod yn cymryd y cyffuriau y gallant eu defnyddio i'w 'blacmelio' yn y dyfodol h.y. gallant ddweud wrth ei rhieni, gallant fygwth ei riportio i'r Heddlu, ac ati)</td><td>Adnodd 3</td></tr>
</table>


Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019

Gofynnwch i'r dysgwyr,

1. **Beth maen nhw'n ei wybod am Ganabis?**
   **Gan ddefnyddio gwefan Schoolbeat.cymru gofynnwch iddyn nhw gael gwybod y wybodaeth ganlynol am Ganabis:**
   **a) Enwau strydoedd**
   **b) Mae'n effeithiau**
   **c) Risgiau**
   **d) Y Gyfraith ynghylch ei defnyddio**

2. **Gofynnwch i'r dysgwyr, pam maen nhw'n meddwl bod Canabis yn aml yn cael ei gynnig am ddim i blant a phobl ifanc am y tro cyntaf?**
   Gall yr atebion gynnwys:
   - Mae'r gwerthwyr am ennill eu hymddiriedaeth.
   - Mae'r gwerthwyr am iddynt fynd yn gaeth i'r cyffur – sy'n golygu y bydd eu hangen arnynt bob amser i'w cyflenwi.
   - Unwaith y bydd y gwerthwyr yn gwybod eu bod yn gaeth, maent yn codi arian am y cyffuriau ac mae'r plant a'r bobl ifanc bob amser yn parhau mewn dyled. Ni fydd y ddyled byth yn cael ei chlirio a bydd bob amser yn tyfu.
   - Gall y deliwr reoli pob agwedd ar fywyd y plentyn unwaith y bydd yn ddyledus iddo.
   - Bydd y deliwr bob amser yn atgoffa'r plentyn pa mor hael oeddent ar ddechrau'r broses – gan ei roi am ddim!

3. **Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i'ch ffrind pe baech chi'n gwybod eu bod wedi dechrau cymryd Canabis?**

Archwiliwch atebion posibl megis ble i gael cyngor a chymorth.

Archwiliwch beryglon tymor byr a thymor hir cymryd Canabis a sut y gall fod yn borth i gyffuriau eraill gan gynnwys cocên a heroin.

Dylai'r cyngor fod yn seiliedig ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu yn rhan gyntaf y weithgaredd wrth gynnal yr ymchwil.


Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019

## Gweithgaredd 4: *Dal mewn Gwe*

**Gwaith Grŵp** | **Adnodd 4**

Atgoffwch y dysgwyr o'r diffiniad o Gamfanteisio Troseddol:

***'Camfanteisio troseddol yw pan mae plentyn neu unigolyn ifanc yn cael ei cyfeillio a'u a'i cam-drin, eu manteisio, eu rhwydo a'u rheoli at ddiben troseddol'.***


Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cael ei ecsbloetio'n droseddol, mae pethau'n mynd allan o reolaeth yn fuan iawn.
Fel yr archwiliwyd yn ystod y wers Cwlwm Twyll, roedd rhai arwyddion cynnar nad oedd pethau'n union yr hyn yr oeddent yn ymddangos.

**Gwaith Grŵp**

Dywedwch wrth y dysgwyr, fel arfer mae 4 cam recriwtio i redeg llinellau sirol ar gyfer gangiau troseddol trefnedig ar gyfer person ifanc:

| | |
|---|---|
| **1. Targedu**<br>Dyma pryd mae camfanteisiwr yn targedu rhywun ifanc sy'n fregus, gan leihau eu cyfleoedd o gael eu dal. Mae camfanteiswyr yn pigo eu targedau'n seiliedig ar bethau fel eich oed, cryfder neu sefyllfa. | **2. Profiad**<br>Y cam hwn yw lle gall camfanteisiwr geisio cael rhywun ifanc i arfer gyda'u ffordd o fyw, neu eu hyfforddi i wneud yr hyn maent yn ei wneud. |
| **3. Bachu**<br>Dyma'r cam lle gwnaiff camfanteisiwr wneud rhywun ifanc deimlo fel eu bod yn aelod o'r gang, hyd yn oed os ydynt ond yn eu cam-fanteisio. | **4. Dal**<br>Dyma pryd mae rhywun ifanc yn teimlo'n ddibynnol ar y grŵp. Efallai bod eu perthynas gyda'u camfanteisiwr yn dechrau dod yn annymunol, wrth i fwriadau neu gymeriad go iawn eu camfanteisiwr ddod i'r amlwg. |

Gellir dangos hyn fel gwe prycop.
Gall plant a phobl ifanc gael eu dal yn hawdd iawn gan gam-fanteisio troseddol, weithiau heb sylweddoli.




**Trafodaeth Dosbarth**

Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau.
Mae angen i'r dysgwyr ddarllen y datganiadau o'r daflen waith, Adnodd 4.


Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019

Yna gallant naill ai dorri'r datganiadau allan neu eu hysgrifennu'n uniongyrchol ar we'r prycop yn ôl pa mor ddrwg mae'r unigolyn ifanc wedi cael eu dal yn y we.
Yna dylai pob grŵp gymharu eu gwe a'r tebygrwydd neu'r gwahaniaethau rhyngddynt.

| | | |
|---|---|---|
| Chwarae triwant o'r ysgol | Cael arian fel gwobr am ffafr fach | Defnyddio cyffuriau a/neu alcohol |
| Derbyn y ffôn clyfar gorau | Derbyn dillad newydd dynodedig | Mynd i ffwrdd o gartref am daith fer |
| Cynorthwyo ffrind | Cario cyffuriau | Cario cyllell |
| Canlyniadau ysgol yn dirywio | Gwneud ffrindiau newydd, hynach | Cario symiau mawr o arian i bobl eraill |
| Poeni teulu | Teimlo'n orbryderus ac ofnus | Ymosodiadau corfforol |
| Hunan-niweidio | Ddim yn poeni am ddim bellach | Derbyn negeseuon testun a galwadau ffôn o hyd |
| Cael eu harestio gan yr Heddlu | Bod mewn ardal newydd a rhyfedd | Dim ffrindiau |

A yw'r rhan fwyaf o grwpiau'n cytuno?

Archwiliwch unrhyw gamsyniadau.

Trafodwch pa mor hawdd neu anodd y gall fod i fynd allan o'r we, gan amlinellu'r ffynonellau cymorth posibl. Cyfeiriwch at y cymorth sydd ar gael gan yr Heddlu neu os ydynt am adrodd yn ddienw – drwy adrodd i www.Fearless.org


Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019

| Gweithgaredd 5: Cyflwyniad Cyfoedion Camfanteisio Troseddol | | |
|---|---|---|
| Gwaith Grŵp | Rhannwch y dosbarth yn grwpiau.<br>Gan ddefnyddio ein gwasanaeth Camfanteisio Troseddol o wefan SchoolBeat.cymru fel templed<br>https://schoolbeat.cymru/cy/partneriaid/llinellau-sirol/<br>ac adnoddau eraill fel y rhai o Fearless.org, Barnardo's, Pobl Goll yr NSPCC, Llinell Gymorth Runnaway a ChildLine, dylai dysgwyr baratoi cyflwyniad cynulliad am Gamfanteisio troseddol ar Blant y gallent ei gyflwyno i grwpiau blwyddyn eraill neu i grwpiau llai o ddysgwyr yn yr ysgol. Gallent wahodd Swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgol i ddod draw hefyd!<br><br>Efallai y bydd y dysgwyr am ddilyn y fformat hwn: | |

| | |
|---|---|
| 1. **Cyflwyniad** | Teitl a llun |
| 2. **Nod.** | Dangoswch yr hyn rydych yn mynd i'w drafod heddiw a'r hyn rydych eisiau i'r grŵp ei ddysgu erbyn diwedd y cyflwyniad. |
| 3. **Diffiniad o Gamfanteisio'n Droseddol ar Blant – weithiau cyfeirir ato fel Llinellau Cyffuriau.** | Beth yw camfanteisio'n droseddol ar blant a adwaenir weithiau fel Llinellau Cyffuriau? |
| 4. **Eglurwch yn syml yr hyn mae ei gynnwys.** | Lluniwch sleid syml i egluro'r hyn ydyw gan ddefnyddio geiriau a lluniau syml. |
| 5. **Sut mae plant a phobl ifanc yn dod i gysylltiad?** | Eglurwch sut mae plant a phobl ifanc yn cael eu 'rhwydo' i ddod yn aelodau o gang. Eglurwch fod Canabis yn cael ei ddefnyddio fel cyffur porth yn aml. |
| 6. **Arwyddion posibl o Gamfanteisio Troseddol y gall disgyblion eraill ac athrawon gadw llygad amdanynt.** | Disgrifiwch yr arwyddion i gadw llygad amdanynt. |
| 7. **Lle i gael cymorth.** | Cyfeiriwch ddisgyblion tuag at asiantaethau fel Meiccymru.org, Fearless, Barnado's, ChildLine a SchoolBeat lle gallent gael cymorth. |


Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019

## Gweithgaredd 6: Hawliau Plant

**Gwaith Grŵp** — **Adnodd 6**

Yn ystod gwers SchoolBeat, trafododd y dysgwyr chwe Hawliau Plant sy'n arbennig o berthnasol i Gamfanteisio Troseddol ar Blant.
Yn ystod y gweithgaredd hwn, byddant yn cael cyfle i archwilio ac egluro pam eu bod mor berthnasol a phwysig. Mewn grwpiau bach gofynnwch i'r dysgwyr drafod a chwblhau'r tabl canlynol, Adnodd 6:

1. Cwblhewch y tabl isod, gan egluro pam eu bod mor berthnasol a phwysig.

| Erthygl | Pam eu bod mor berthnasol a phwysig? |
|---|---|
| **Erthygl 19** – Mae gen i'r hawl i gael fy ngwarchod rhag cael fy mrifo neu fy nhrin yn wael | |
| **Erthygl 33** – Dylwn gael fy ngwarchod rhag cyffuriau peryglus | |
| **Erthygl 34** – Ni ddylai neb fy nghyffwrdd mewn ffyrdd sy'n gwneud i mi deimlo'n anghyfforddus, yn anniogel neu'n drist | |
| **Erthygl 35** – Ni ddylaf gael fy nghipio, fy ngwerthu neu fy masnachu | |
| **Erthygl 36** – Mae gen i'r hawl i gael fy niogelu rhag pethau a allai effeithio fy natblygiad | |
| **Erthygl 39** – Mae gen i'r hawl i gael cymorth os wyf wedi cael fy mrifo, fy esgeuluso neu gael fy nhrin yn wael. | |

Defnyddiwch ddogfen 42 Erthygl o wefan Comisiynydd Plant Cymru

https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/01/42-Articles-Welsh-A4-cards.pdf

Dylai'r dysgwyr nodi erthyglau eraill a allai fod yn ddefnyddiol i'w cofio hefyd.

Yn olaf, efallai y byddant am ystyried a chodi ymwybyddiaeth o'r hawliau hyn yn yr ysgol.

SchoolBeat.cymru
Hawlfraint Heddlu Gwent 2019
© Gwent Police Copyright 2019